Senedd Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Trefn Cyfarfod Senedd yr Ysgol - 24.10.25

	Pwyllgor:	Dinasyddion Doeth
	Eitem	**Nodiadau**
1	**Cystadleuaeth ailgylchu batris.**	Atgoffa'r disgyblion i hybu'r gystadleuaeth ailgylchu batris 2025-26. Trafod beth gallem wario'r £50 (o'r gystadleuaeth blaenorol) arni. Camera bywyd gwyllt efallai?
2	**Cystadleuaeth addurn Nadolig.**	Ysgrifennu nodyn/llythyr er mwyn lansio'r gystadleuaeth i gymuned yr ysgol. Cystadleuaeth creu addurn Nadolig Eco gyfeillgar– Dinasyddion Doeth Rhowch gynnig ar ein cystadleuaeth Eco i greu addurn Nadolig gan ailddefnyddio deunyddiau a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi? Cofiwch i roi eich enw a'ch dosbarth ar eich haddurniadau! Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich haddurniadau Nadolig Eco-gyfeillgar! Dewch a nhw i'r ysgol erbyn yr 8fed o Ragfyr os gwelwch yn dda! Competition to create an Eco friendly Christmas decoration – Dinasyddion Doeth Enter our Eco competition to create a Christmas decoration by reusing materials that would otherwise go to landfill! Please include your name and class on the decorations. We are looking forward to receiving your Eco-friendly Christmas decorations! Please could you bring the decorations to school by the 8th of December.
3	**Cystadleuaeth poster diogelwch ar y ffordd.**	Ysgrifennu nodyn/llythyr er mwyn lansio'r gystadleuaeth i gymuned yr ysgol. Er mwyn dathlu Wythnos Diogelwch y Ffordd 16eg - 22ain Tachwedd 2025, hoffem wahodd y disgyblion i gymryd rhan mewn cystadleuaeth poster! Dyluniwch boster lliwgar (yn y Gymraeg a'r Saesneg) i hybu diogelwch ar y ffordd – papur A4 (arlunio neu graffeg gyfrifiadurol) gan gynnwys slogan bachog / rheolau i hybu diogelwch ar y ffyrdd yn ystod misoedd y Gaeaf. Gall hyn gynnwys gyrru / seiclo'n ddiogel, croesi'r ffordd yn ddiogel, gwisgo dillad addas ac ati. Efallai yr hoffech ganolbwyntio ar ddylunio eitem o ddillad megis bag, het bobl neu got a allai gael ei gweld yn hawdd yn y tywyllwch. Bydd pwyllgor y 'Dinasyddion Doeth' yn dewis eu hoff bosteri i'w harddangos o amgylch yr ysgol ac ar wefan yr ysgol. Dyddiad cau: 21 Tachwedd. Cofiwch gynnwys eich enw a'ch dosbarth ar gefn y poster!